media cymru

Media Cymru × Tramshed Tech

Cronfa Twf y Dyfodol 2027

Table of Contents

Trosolwg 2

Cwmpas 2

Hygyrchedd 3

Dyddiadau Pwysig 3

Diffiniad Media Cymru o Ymchwil a Datblygu 4

Dull gweithredu Media Cymru o ran datblygu cynnwys 4

Y Broses Asesu 5

Pileri Media Cymru 5

Cymhwysedd 6

Rhaglen Parodrwydd i Fuddsoddi Tramshed Ventures. 6

Rheoli cymorthdaliadau 7

Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) 7

Cyllideb 8

Moeseg ac Arloesi Cyfrifol 9

Cwestiynau'r broses ymgeisio a'r meini prawf asesu 10

Trosolwg

Nod Media Cymru yw cefnogi twf cynaliadwy sector cyfryngau Cymru drwy fuddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu i sicrhau effeithiau economaidd a chymdeithasol trawsnewidiol.

Rydym ni eisiau buddsoddi mewn pobl a chwmnïau a all gystadlu â chystadleuwyr rhyngwladol o ran graddfa eu huchelgais arloesi. Bydd Cronfa Twf y Dyfodol Media Cymru x Tramshed Tech yn dyrannu grantiau o hyd at £30,000 i gwmnïau yng Nghymru sydd â photensial twf uchel. Bydd y gronfa'n cefnogi arloesedd cam cynnar i gwmnïau ymchwilio a datblygu cynhyrchion, gwasanaethau a phrofiadau sy'n arddangos y potensial i ddenu buddsoddiad yn y dyfodol a sicrhau twf tymor hir yn sector y cyfryngau.

Hoffem i chi gyflwyno her, problem neu gyfle posibl i'w archwilio drwy brosiect ymchwil a datblygu uchelgeisiol, tri mis o hyd. Dylech wneud cais sy'n cynnwys crynodeb o'r cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad yr hoffech ei ddatblygu. Rydym yn chwilio am syniadau newydd sydd â photensial hirdymor ar gyfer eich busnes y tu hwnt i oes y prosiect, ac sydd â'r gallu i dyfu drwy gyllid preifat a/neu gyhoeddus ychwanegol. Byddwch eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith cychwynnol i asesu dichonoldeb y prosiect, a'i botensial i fynd i'r afael â mater neu her sylweddol. Erbyn diwedd y prosiect, hoffem i chi fod wedi datblygu allbwn sylweddol, e.e. prawf o gysyniad, prototeip gweithredol neu isafswm cynnyrch hyfyw, o ganlyniad i'ch gwaith ymchwil a datblygu.

Bydd prosiectau a ariennir yn ymuno â Rhaglen Parodrwydd i Fuddsoddi ehangach dan arweiniad Tramshed Ventures. Yn ystod y rhaglen tri mis o hyd, bydd eich prosiect ymchwil a datblygu yn cael cymorth strwythuredig i fod yn barod am fuddsoddiad, gan adeiladu at gyfle i gyflwyno eich gwaith i fuddsoddwyr a rhanddeiliaid eraill.

Cwmpas

Gall eich prosiect ffocysu ar un neu fwy o'r canlynol:

- Fformatau cyfryngau newydd a datblygu cynnwys arloesol
- Modelau busnes a phrosesau cynhyrchu cyfryngau newydd a chynhwysol
- Cynhyrchu cyfryngau uwch, gan gynnwys cydgyfeirio cynhyrchu rhithwir a chynhyrchu traddodiadol
- Adrodd straeon drwy dechnolegau ymgolli realiti estynedig (XR), gan gynnwys realiti rhithwir (VR), realiti estynedig (AR) a realiti cymysg (MR)
- Creu cynnwys gemau fideo a'u cynhyrchu, gan gynnwys cydgyfeirio â chyfryngau eraill

- Sero net a datgarboneiddio'r sector sgrin (mae croeso arbennig i brosiectau sy'n ymateb i ganfyddiadau Screen New Deal: Cynllun Trawsnewid i Gymru)
- Creu lleoedd, gan gynnwys twristiaeth ddiwylliannol a'r cyfryngau
- Cynhyrchu dwyieithog ac amlieithog
- Newyddion a gwybodaeth gyhoeddus
- Cynhyrchu cerddoriaeth, llais a sain, gan gynnwys perfformio a dosbarthu
- Deallusrwydd Artiffisial (AI) a thechnolegau eraill fel offer ar gyfer cynhyrchu'r cyfryngau

Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysfawr nac yn gyfyngedig.

Nid yw Cronfa Twf y Dyfodol yn addas ar gyfer y canlynol:

- Datblygu cynnwys generig (e.e. datblygu ffilmiau byrion, ffilmiau nodwedd neu benodau peilot ar gyfer y teledu sy'n cydymffurfio â genres ac arferion adrodd straeon safonol)
- Gweithgarwch busnes fel arfer cyffredinol, neu
- Gomisiynau celf untro.

Hygyrchedd

Os oes gennych chi ofynion penodol a fyddai'n gwneud y broses ymgeisio'n fwy hygyrch (e.e. cyngor, trawsgrifio neu gymorth darllen), neu os hoffech chi drafod fformatau eraill (fideo neu sain, naratif llais, ffont mawr, testun plaen neu iaith arall), anfonwch neges e-bost at media.cymru@cardiff.ac.uk neu ffoniwch 02922 511 434.

Dyddiadau Pwysig

- Dydd Llun 23 Tachwedd 2026 – Cyfnod ymgeisio yn agor
- Dydd Iau 17 Rhagfyr 2026 – Cyfnod ymgeisio yn cau am ganol dydd (12pm): sylwch, ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar ôl yr amser hwn
- 20 a 21 Ionawr 2027 – Dyddiadau'r cyfweliadau panel
- 1 Chwefror 2027 – Hysbysu ymgeiswyr (cofiwch y gall gymryd hyd at 4 wythnos i gyhoeddi'r contractau)
- 15 Mawrth 2027 – Prosiectau'n dechrau
- 15 Mawrth 2027 - Diwrnod Carfan yn Tramshed Tech
- 18 Mehefin 2027 – Prosiectau'n gorffen

Cynhelir gweminar am 10.30am ddydd Iau 3 Rhagfyr 2026. Bydd y weminar yn cynnwys trosolwg o'r gronfa, yr amserlen a'r prosesau ymgeisio. Bydd sesiwn holi ac ateb hefyd, gyda

chyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am y gronfa a'r broses ymgeisio i gydweithwyr o Media Cymru a Tramshed Tech.
Cofrestrwch yma: https://events.teams.microsoft.com/event/08c72662-1acf-410b-99de-01616d3aa7c4@bdb74b30-9568-4856-bdbf-06759778fcbc

Diffiniad Media Cymru o Ymchwil a Datblygu

Diffinnir gweithgareddau ymchwil a datblygu fel gwaith creadigol a systematig a wneir i fynd i'r afael â heriau ac i greu cynhyrchion, gwasanaethau, prosesau neu brofiadau newydd neu well.

Gan ystyried cyd-destun y cyfryngau, gallai hyn olygu archwilio, profi neu arbrofi gyda thechnoleg newydd fel realiti estynedig, deallusrwydd artiffisial neu gynhyrchu rhithwir. Gallai hefyd olygu archwilio ffyrdd o weithio sy'n flaengar, yn decach ac yn fwy cyfeillgar i'r blaned. Gallai gynnwys profi dulliau newydd o gynhyrchu, dosbarthu a phrofi cynnwys, neu ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd a bod yn fwy sensitif i'w hanghenion a'u gofynion.

Dyma'r math o brosiectau ymchwil a datblygu rydym ni'n chwilio amdanynt:

- **Gwreiddiol:** byddant yn seiliedig ar gysyniadau a damcaniaethau gwreiddiol, nid rhai amlwg
- **Creadigol:** byddant yn defnyddio dulliau arbrofol ac yn cynhyrchu canfyddiadau newydd
- **Ansicr:** byddant yn dechrau gyda rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y canlyniadau terfynol
- **Systematig:** byddant yn seiliedig ar ddull gweithredu sydd wedi'i gynllunio a'i gyllidebu
- **Trosglwyddadwy:** byddant yn cynhyrchu canlyniadau y gellir eu hatgynhyrchu er mwyn sicrhau manteision ehangach

Dull gweithredu Media Cymru o ran datblygu cynnwys

Rydym ni'n croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu sy'n archwilio dulliau arloesol a newydd o ddatblygu cynnwys, creu fformatau cyfryngau newydd a thechnegau cynhyrchu cynnwys. Fodd bynnag, nid ydym yn comisiynu datblygiad masnachol llawn cynnwys cyfryngau sy'n barod i'w ddarlledu. Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol yw bod canlyniad prosiect datblygu cynnwys Ymchwil a Datblygu Media Cymru yn debygol o fod yn

naill ai'n brototeip, yn brawf o gysyniad, yn gyflwyniad gweledol cryno (pitch deck), yn fideo hyrwyddo byr (sizzle reel) neu'n gynllun technegol, yn hytrach na chynllun peilot, rhaglen neu ffilm orffenedig.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau datblygu cynnwys a fyddai'n gymwys ar gyfer cyllid Ymchwil a Datblygu gan Media Cymru:

- Archwilio a phrofi'r defnydd o dechnolegau newydd, e.e. deallusrwydd artiffisial (AI), technolegau cynhyrchu cyfryngau uwch, neu dechnolegau realiti estynedig (XR)
- Dulliau cydweithio newydd sy'n cwmpasu gwahanol is-sectorau creadigol fel cynhyrchu teledu/ffilm, gemau a pherfformiadau byw, i greu mathau newydd o gynnwys cyfryngau cydgyfeiriol a dulliau dosbarthu
- Dulliau arloesol o adrodd straeon
- Gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, e.e. grwpiau ffocws a gweithdai, sydd wedi'u dylunio i ddatgelu cysyniadau, dulliau neu safbwyntiau newydd i lywio'r gwaith o ddatblygu cynnwys
- Ymchwil i gynulleidfaoedd sy'n arwain at arloesi cysyniadol a/neu gynhyrchu cynnwys sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd mwy amrywiol neu rai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol
- Ymchwil i'r farchnad sy'n arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o farchnadoedd byd-eang a datblygu strategaethau ar gyfer twf economaidd wedi'i dargedu

Y Broses Asesu

Yn dilyn asesiad Media Cymru, bydd yr holl geisiadau sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu cyfweliad 25 munud ar 20 a 21 Ionawr i roi cyflwyniad byr a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb. Bydd y cyfweliad hwn, wyneb yn wyneb neu ar-lein, yn cael ei gynnal gyda phanel o gynghorwyr annibynnol ac aelodau perthnasol o Dîm Media Cymru. Bydd y panel yn asesu sut mae prosiectau'n perfformio yn erbyn y meini prawf asesu a amlinellir isod (tt. 9-14). Bydd argymhelliad y panel yn sail i benderfyniad terfynol Media Cymru ar ddyfarniadau ariannol.

Pileri Media Cymru

Rydym ni'n awyddus i gefnogi prosiectau sy'n mynd i'r afael â rhai agweddau ar ein pedwar piler strategol, neu bob un ohonynt: Twf, Gwyrdd, Teg, Byd-eang.

Dyma bileri strategol rhaglen Media Cymru:
Twf - sbarduno twf a chynhyrchiant drwy waith ymchwil a datblygu

Gwyrdd - lleihau effaith amgylcheddol y sector
Teg - creu sector teg, cyfartal ac amrywiol
Byd-eang - cynyddu cydweithrediadau rhyngwladol

Cymhwysedd

Gyda'n holl weithgarwch, rydym ni'n awyddus i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl i sicrhau ein bod yn clywed y syniadau gorau. Rydym ni'n cydnabod bod buddsoddiad ym maes ymchwil a datblygu yn canolbwyntio'n rhy aml ar rwydweithiau nad ydynt yn cynrychioli ein cymuned ehangach o ran ei hamrywiaeth gymdeithasol a diwylliannol. Ein nod yw newid y patrwm hwnnw ac rydym ni'n gweithio i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd strwythurol hwn yn y sector. Rydym ni hefyd yn gobeithio ysbrydoli llwybrau ymchwil a datblygu trawsnewidiol a chynhwysol a fydd yn herio'r ffyrdd presennol o gynhyrchu a meddwl.

Rydym ni'n croesawu ceisiadau gan gwmnïau amrywiol o wahanol faint, gan gynnwys microfusnesau. Ni fydd unig fasnachwyr a gweithwyr llawrydd yn gymwys ar gyfer y gronfa hon.

Meini prawf cymhwysedd:

- Mae gennych syniad ymchwil a datblygu wedi'i fynegi'n glir
- Rydych chi'n gweithio yn niwydiant cyfryngau Cymru, neu mae eich syniad o fudd uniongyrchol i ddiwydiant cyfryngau Cymru
- Rhaid i'ch cwmni fod yn fusnes cofrestredig yn y DU gyda chyfeiriad busnes yng Nghymru
- Gallwch neilltuo amser ac ymdrech i gwblhau prosiect ymchwil a datblygu rhwng mis Mawrth 2027 a mis Mehefin 2027

Sylwch, dim ond un cais y byddwn yn ei dderbyn a'i ariannu fesul cwmni fel arweinydd prosiect.

Rhaid cyflwyno pob ffurflen ar-lein drwy ein gwefan.

Rhaglen Parodrwydd i Fuddsoddi Tramshed Ventures.

Bydd prosiectau'n ffurfio rhan o garfan o Aelodau Tramshed Ventures sy'n cymryd rhan mewn Rhaglen Parodrwydd i Fuddsoddi. Bydd aelodau'n cael cymorth strwythuredig ar eu taith tuag at fod yn barod am fuddsoddiad, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Gofod yn Tramshed: bydd gan aelodau fynediad at y gofod yn Tramshed Tech drwy gydol eu prosiect.
- Gweithdai: yn ffocysu ar Gyllid, Buddsoddi a Chyflwyno Syniadau.
- Sesiynau rhwng cymheiriaid: sesiynau i gwmnïau weithio drwy eu cynlluniau gyda'i gilydd, wedi'u cymedroli gan dîm Tramshed Ventures.
- Clinig 1:1: bydd cwmnïau'n mynychu sesiynau un-i-un gyda thîm Tramshed Ventures, a fydd yn ffocysu ar achos buddsoddi, cyflwyniad a chynllun pob cwmni.
- Digwyddiad Cyflwyno Syniad Preifat: digwyddiad cyflwyno syniad preifat i fuddsoddwyr er mwyn i gwmnïau gael adborth a chwrdd â buddsoddwyr.
- Digwyddiad arddangos: mae cwmnïau'n cyflwyno eu gwaith i gyfres o fuddsoddwyr, partneriaid a gwesteion.

Rheoli cymorthdaliadau

Ystyr cymhorthdal yw pan fydd awdurdod cyhoeddus yn rhoi cymorth i fenter er mwyn sicrhau mantais economaidd i'r fenter honno. Mae cymorthdaliadau a ddyfernir, yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, yn darparu ffordd ddilys o gael cyllid cyhoeddus i gefnogi gweithgarwch economaidd.

Cynigir Cronfa Twf y Dyfodol 2027 Media Cymru x Tramshed Tech ar ffurf grant arian parod gan Brifysgol Caerdydd, hyd at £30,000. Bydd y grant yn cael ei roi fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA).

Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA)

O dan reolau MFA, gall awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu hyd at £315,000 o gymhorthdal MFA i fenter dros 'gyfnod perthnasol' o dair blynedd ariannol. Y 'cyfnod perthnasol' hwn yw:

- y rhan sydd wedi mynd heibio o'r flwyddyn ariannol gyfredol sy'n dod i ben ar 30 Mawrth (h.y. o fis Ebrill); a'r
- ddwy flynedd ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Yn y cais, gofynnir i chi ddatgan eich cymhwysedd i dderbyn cyllid drwy'r llwybr MFA. I gadarnhau eich bod yn gymwys, mae angen i chi gadarnhau nad yw ychwanegu ein cyllid grant yn golygu eich bod yn derbyn mwy na'r uchafswm o £315,000 MFA sydd ar gael dros y 'cyfnod perthnasol' o dair blynedd ariannol.

Wrth asesu'r cymorth blaenorol y gallech fod wedi'i gael dros y cyfnod perthnasol, dylech gynnwys y canlynol:

- Cymorth De Minimis
- Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA) a roddir fel Hawliau Arbennig Tynnu Allan (SDR)
- Cymorth Ariannol gan y Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)
- Cymorth Ariannol Lleiaf

Dylai llythyrau dyfarnu neu hysbysu blaenorol gan awdurdodau cyhoeddus nodi'r sail dros ddyfarnu a'r dyddiad dyfarnu yn glir. Os nad ydych yn siŵr, dylech gysylltu â'r awdurdod cyhoeddus sy'n rhoi'r cymorth i gadarnhau ei natur. Nid oes angen i chi gynnwys cymorth a roddir ar sail wahanol – er enghraifft, grant a roddir o dan Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (GBER) Cymorth Gwladwriaethol yr UE.

Wrth asesu MFA, rhaid i chi gynnwys pob sefydliad yn strwythur eich grŵp sy'n gweithredu o dan 'reolaeth gyffredin'. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn Atodiad 1 y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Rheoli Cymorthdaliadau'r DU 2022, paragraff 15.40-15.46, tt. 174-176.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau'r DU 2022, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Canllawiau Statudol, Pennod 7. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno adolygu'r canllawiau ehangach sydd ar gael gan Uned Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru, neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol. Nid yw Prifysgol Caerdydd yn gallu rhoi cyngor ar gymhwysedd na rhwymedigaethau cyfreithiol unigol.

Cyllideb

Bydd pob prosiect a ariennir yn derbyn hyd at £30,000. Bydd taliadau'n cael eu gwneud yn unol â chamau'r prosiect isod:

Taliadau	Cam y prosiect	Gwerth y taliad
1	Y Brifysgol yn derbyn Cytundeb wedi'i lofnodi'n llawn	£13,500 (45%)
2	Ar ôl cwblhau'r elfennau i'w cyflawni y cytunwyd arnynt a chyflwyno ffurflen hawliadau a chynllun y prosiect wedi'i ddiweddaru	£13,500 (45%)
3	Ar ôl cwblhau'r holl elfennau i'w cyflawni a chyflwyno ffurflen hawliadau a chynllun terfynol y prosiect	£3,000 (10%)

Cyfrifoldebau'r ymgeisydd

Rhaid i bob cais am brosiect gael ei arwain gan un sefydliad. Yn dibynnu ar y math o sefydliad, rhaid i'r ymgeisydd fod yn fusnes sydd wedi'i gofrestru yn y DU.

Mae'r prif ymgeisydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Bod yn 'arweinydd cytundebol' neu'n llofnodwr Cytundeb Grant Media Cymru
- Arwain, rheoli a chyflawni'r prosiect yn unol â'r cynnig a'r gyllideb y cytunwyd arnynt
- Hawlio a derbyn cyllid grant a chadw cofnodion ariannol priodol o'r holl wariant
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer monitro ac adrodd ar y prosiect, gan gysylltu'n rheolaidd ag aelod penodol o dîm Media Cymru
- Cynrychioli'r prosiect ar Raglen Parodrwydd i Fuddsoddi Tramshed Ventures

Bydd yn rhaid i'r prif ymgeisydd roi sicrwydd bod ganddo gyfrif banc busnes, ei fod yn gallu rheoli gofynion llif arian ei brosiectau, a bod ganddo brosesau ariannol priodol ar waith i gyflawni prosiectau yn unol â'n telerau ac amodau cyllido.

Byddwn yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy o sefydliadau sy'n cyflwyno cais fel rhan o'n hasesiadau o ddichonoldeb prosiectau. Ystyrir y canlyniadau yn erbyn maint y cyllid y gofynnwyd amdano. Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fodlon cyflwyno dogfennau ategol ar gais.

Rhaid i unrhyw ymgeisydd fod yn gymwys i gael cyllid yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 pan fyddwn yn cadarnhau y dyfernir cyllid i chi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch rheoli cyllid, cysylltwch â media.cymru@cardiff.ac.uk a byddwn yn fwy na pharod i roi arweiniad i chi.

Moeseg ac Arloesi Cyfrifol

Mae Media Cymru yn glynu at y safonau uchaf posibl o ran moeseg ymchwil. Mae gennym rai gwerthoedd sylfaenol sy'n llywio ein gweithdrefnau, sy'n alinio'n uniongyrchol â phrif amcanion Media Cymru. Mae ein hymrwymiad i safonau moesegol uchel hefyd yn ceisio llywio, meithrin a chefnogi'r gweithgareddau ymchwil a datblygu a gynllunnir ac a ddatblygir gan y prosiectau a ariennir gennym. Yn dilyn Fframwaith Arloesi Cyfrifol UKRI, bydd ein paneli asesu yn ystyried effaith foesegol y prosiect ymchwil a datblygu arfaethedig (gan gynnwys canlyniadau anfwriadol posibl). Gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried ystyriaethau moesegol yn eich cais, yn enwedig wrth ddangos effaith economaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac amgylcheddol bosibl y prosiect ymchwil a datblygu arfaethedig.

Mae Media Cymru yn dilyn polisi UKRI o ran defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol wrth asesu ceisiadau, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn glynu wrth yr un egwyddorion wrth baratoi ceisiadau. Yn unol â pholisi UKRI ar lywodraethu arferion ymchwil da, rhaid i chi gydymffurfio â deddfwriaeth eiddo deallusol a diogelu data perthnasol.

Cwestiynau'r broses ymgeisio a'r meini prawf asesu

Sylwch fod yn rhaid i bob cais gael ei gyflwyno drwy'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan:

Os ydych chi'n dymuno paratoi eich atebion all-lein, dyma gwestiynau allweddol y broses ymgeisio*:

Meini Prawf

- Mae fy nghwmni yn fusnes cofrestredig yn y DU gyda chyfeiriad busnes yng Nghymru.
- Mae fy nghwmni yn gymwys i dderbyn cyllid grant a ddyfarnwyd o dan Gymorth Ariannol Lleiaf (gweler y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cyllid grant).
- Mae gan fy nghwmni'r argaeledd a'r capasiti i weithio ar y prosiect hwn rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2027.

Teitl y prosiect

Cyflwynwch eich cwmni a'r gwaith rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd (dim mwy na 300 gair).
Dywedwch wrthym am eich hanes masnachol, gan gynnwys manylion aelodau'r tîm a fydd yn cyfrannu at y prosiect ymchwil a datblygu hwn, a'u harbenigedd perthnasol; y cam y mae eich busnes arno ar hyn o bryd; a pham mai chi yw'r cwmni cywir i gyflawni'r prosiect hwn.

Ysgrifennwch grynodeb byr o'r cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad arloesol yr hoffech ei ddatblygu drwy'r prosiect ymchwil a datblygu hwn (dim mwy na 300 gair).
Rydym ni'n diffinio ymchwil a datblygu fel proses greadigol a systematig o gynnal ymchwil wrth i chi ddatblygu eich cynnyrch, gwasanaeth neu brofiad newydd. Mae ymchwil a datblygu yn aml yn dechrau gyda phroblem, angen neu gyfle amlwg, yn hytrach na rhagdybio datrysiad. Mae'r broses ymchwil a datblygu wedyn yn eich galluogi i nodi'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem neu'r angen hwnnw. Efallai fod gennych syniadau da am y ffordd orau o wneud hyn ond mae'n debyg y bydd y rhain yn newid neu'n esblygu fel rhan o'r broses ymchwil a datblygu.

Dywedwch wrthym am unrhyw waith rydych chi wedi'i wneud i asesu dichonoldeb y syniad yr hoffech ei ddatblygu (dim mwy na 300 gair).
Rhannwch fanylion y gwaith dichonoldeb rydych chi wedi'i gwblhau hyd yma a sut mae hyn yn cefnogi eich cynnig. Dylech gynnwys unrhyw ddadansoddiad o gystadleuwyr, a gwaith i asesu datrysiadau eraill, eich sefyllfa o ran eiddo deallusol (IP) a'r cyfle yn y farchnad ehangach.

Dywedwch wrthym am y gweithgareddau ymchwil a datblygu yr hoffech ymgymryd â nhw yn ystod y prosiect hwn a sut y gellir eu cyflawni o fewn yr amserlen 3 mis (uchafswm o 300 gair).
Amlinellwch y prif weithgareddau ymchwil a datblygu y byddwch yn ymgymryd â nhw o ganlyniad i'r prosiect hwn. Byddwch yn realistig o ran ymrwymiadau eraill ar eich amser, arbenigedd priodol a'r hyn y gallwch ei gyflawni o fewn yr amserlen gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n bwysig eich bod yn dangos amserlen glir a chyraeddadwy ar gyfer yr elfennau allweddol sydd i'w cyflawni. Rhannwch ddyddiadau allweddol a cherrig milltir y prosiect.

Dywedwch wrthym sut gallai'r gweithgareddau ymchwil a datblygu gefnogi twf hirdymor eich cwmni a chefnogi buddsoddiad yn y dyfodol?

Rydym eisiau i chi egluro sut y gallai eich gweithgareddau ymchwil a datblygu arfaethedig arwain at dwf a chyfleoedd buddsoddi i'ch cwmni yn y dyfodol. Efallai y byddwch eisiau ystyried manteisio ar eiddo deallusol newydd; gwelliannau i brosesau busnes, llif gwaith neu gynhyrchiant; a sut bydd eich busnes yn tyfu oherwydd eich gwaith ymchwil a datblygu.

Gallai manteision economaidd ychwanegol eich gweithgarwch ymchwil
a datblygu gynnwys y canlynol:

- Sicrhau rhagor o gyllid cyhoeddus neu breifat i ehangu gweithgareddau ymchwil a datblygu
- Ymuno â marchnadoedd newydd a gyrru ffrydiau refeniw newydd
- Creu capasiti i'ch cwmni dyfu
- Cynyddu eich effeithlonrwydd
- Lleihau costau a chynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu
- Galluogi creu cwmni newydd
- Cynyddu refeniw o werthiant, trwyddedu neu allforion
- Creu model busnes newydd
- Mabwysiadu technolegau newydd
- Gwella ansawdd cynhyrchion, gwasanaethau a/neu brofiadau presennol

Esboniwch sut bydd eich prosiect yn cael effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac amgylcheddol gadarnhaol (dim mwy na 300 gair).

Mae angen i chi ystyried effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac amgylcheddol eich gweithgarwch ymchwil a datblygu.

Gall yr effeithiau gynnwys:

- Cynrychioli diwylliant, iaith, straeon a thirweddau Cymru
- Cyrraedd cynulleidfaoedd neu farchnadoedd amrywiol neu rai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol
- Gwella cydraddoldeb mynediad at y sector cyfryngau
- Gwella lefelau llesiant neu ansawdd bywyd pobl
- Cynyddu ymwybyddiaeth ryngwladol o sector cyfryngau Cymru a meithrin cydweithio rhyngwladol
- Cyfrannu at dargedau sero net
- Cael effaith amgylcheddol gadarnhaol arnoch chi/eich cwmni/diwydiant ehangach
- Gwella ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd o'r argyfwng hinsawdd. Lleihau allyriadau
- Defnyddio llai o drafnidiaeth
- Lleihau'r defnydd neu ail-bwrpasu deunyddiau
- Creu prosesau sy'n defnyddio ynni yn fwy effeithlon

Mae Media Cymru yn defnyddio Safonau Amrywiaeth y BFI fel rhan o'n proses asesu a monitro. Gofynnwn i chi amlinellu sut bydd eich prosiect yn alinio ag o leiaf dau o safonau amrywiaeth y BFI. Mae Media Cymru wedi ymrwymo i dyfu sector cyfryngau tecach a mwy cynhwysol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym ni'n defnyddio Safonau Amrywiaeth y BFI fel rhan o'n proses asesu a monitro. Mae'r Safonau hyn yn cael eu mabwysiadu'n eang ar draws diwydiannau sgrin y DU. Maent yn darparu fframwaith ar y cyd ar gyfer gwella cynrychiolaeth, mynediad a chynhwysiant ar draws cyllid y diwydiant.

Mae'r Safonau'n ymwneud â phum prif faes:

Safon A: Cynrychiolaeth, themâu a naratifau ar y sgrin
Safon B: Arweinyddiaeth greadigol a thîm y prosiect
Safon C: Mynediad i'r diwydiant a chyfleoedd
Safon D: Datblygu cynulleidfaoedd
Safon E: Hygyrchedd

Mae Media Cymru yn gofyn i ymgeiswyr amlinellu sut y bydd eu prosiectau'n ymgysylltu â dau o'r Safonau.

Gall eich ymateb gynnwys:

- Sut mae eich prosiect yn cynrychioli neu'n cydweithredu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Y camau rydych chi'n eu cymryd i gefnogi cynhwysiant ac ehangu mynediad at gyfleoedd yn eich tîm, eich partneriaid neu'ch cadwyn gyflenwi
- Sut mae hygyrchedd ac arferion cynhwysol yn cael eu gwreiddio drwy gydol y broses ddatblygu a chynhyrchu
- Y partneriaethau, y rhwydweithiau neu'r arbenigedd cymunedol rydych chi'n eu defnyddio i gryfhau eich prosiect
- Unrhyw arferion a phrosesau newydd rydych chi'n bwriadu eu mabwysiadu fel rhan o'r prosiect hwn

Yn y ffurflen gais, gofynnir i chi ysgrifennu ymateb byr i ddwy o'r Safonau. Nid ydym yn disgwyl i brosiectau gydymffurfio'n llawn â phob maes, ond pan fyddwn yn asesu'r rhan hon o'r cais, rydym ni'n chwilio am gysondeb â safonau'r BFI sy'n berthnasol ac sy'n cynrychioli ymrwymiad gwirioneddol i gynhwysiant. Rydym ni hefyd yn edrych ar sut y gallech adrodd ar yr ymrwymiad hwn neu ei fesur.

Os caiff eich prosiect ei ariannu, gofynnir i chi adrodd a phwyso a mesur sut rydych chi wedi cyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau hyn ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Rydym ni'n gwneud hyn oherwydd mae'n ein helpu i ddeall sut y gall ein gwaith presennol (a'n gwaith yn y dyfodol!) gefnogi sector sgrin amrywiol a ffyniannus.

Mae gwybodaeth lawn am Safonau Amrywiaeth y BFI ar gael fan hyn.

Ai dyma'r tro cyntaf i chi ddod ar draws Safonau Amrywiaeth y BFI yn eich gwaith? Ie/Na

Beth yw eich cyllideb ar gyfer y cam ymchwil a datblygu? Rydym ni'n cynnig hyd at £30,000 ar gyfer y rownd gyllido hon.

Rhowch fanylion y costau rydych chi'n debygol o'u hysgwyddo wrth gyflawni eich prosiect drwy'r cam ymchwil a datblygu. Byddwch mor gywir ag y gallwch ar y cam hwn a rhowch gyfiawnhad dros y costau a pham mae angen cyllid grant cyhoeddus ar y prosiect hwn. Mewn achosion lle mae costau is-gontractwr yn fwy na 25% o gyfanswm costau cyllideb eich prosiect, bydd angen i chi ddarparu sail resymegol ar gyfer hyn yn eich templed cyllideb.

Defnyddiwch y templed cyllideb Excel a ddarparwyd a'i atodi fel ffeil ychwanegol ar ddiwedd y cais.

*I weld y cais llawn, ewch i'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan.